



---

## YSGOL PLAS COCH

---

Mr Osian Jones BA  
Pennaeth Head Teacher

E-bost/E-mail: [mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk)  
Gwefan/Website: <https://ysgolplascoch.cymru>

Awst 26ain 2020

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Gobeithio fod pawb yn cadw'n iawn ac yn mwynhau'r gwyliau.

Ar ôl cyfnod o gynllunio ac ystyried canllawiau o wahanol gyfeiriadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r AALI, isod mae gwbyodaeth berthnasol i chi am ail agor yr ysgol fis Medi. Rydym yn edrych ymlaen i weld y disgyblion i gyd yn dychwelyd gan gynnwys y rhai fydd yn cychwyn yn y dosbarth Meithrin am y tro cyntaf.

Wrth ail agor, rydym am gesio cael cymaint o normalrwydd a phosib i bawb, disgyblion, staff a rhieni / gwarchodwyr, gan gydbwyso hyn wrth gwrs efo iechyd a dioglewch oherwydd y sefyllfa Covid-19.

### **Pryd mae'r disgyblion yn ail gychwyn ac ym mha ddsbarthiadau?**

Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei rannu efo chi drwy'r app / safle gwe / drwy'r post ddiwedd tymor yr haf – cymrwch olwg ar safle gwe'r ysgol os ydych yn ansicr o'r dyddiadau.

**Meithrin:** mae ebyst efo'r wybodaeth berthnasol wedi cael eu danfon atoch yn ystod y gwyliau.

Unwaith bydd y disgyblion yn cychwyn, byddant i fewn bob diwrnod.

Fel nodwyd uchod, un o'n bwriadau yw medru dychwelyd i gymaint o normalrwydd a sy'n bosib o dan yr amgylchiadau. Gyda hyn mewn cof, i'ch cynorthwyo chi fel rhieni efo gofynion gwaith, bydd y clybiau brecwast ac ar ôl ysgol yn weithredol fel arfer, o'r diwrnod mae eich plentyn yn cychwyn yr ysgol. Hefyd, rydym am drïo peidio darwahanu amseroedd cychwyn a gorffen diwrnod ysgol. Yn naturiol, byddwn yn gorfod monitro'r agwedd hon yn ofalus dros y dyddiau a'r wythnosau cyntaf o'r tymor a gwneud newidiadau os bydd angen. I gynorthwyo efo hyn, bydd hi'n hynod o bwysig i chi ddilyn y canllawiau gollwng a chasglu fydd yn cael eu rhannu efo chi ddechrau wythnos nesaf.

### **Oriau agor yr ysgol**

Bydd rhain yn aros yr un fath ac oeddent cyn i'r ysgol gau ym mis Mawrth:

**Meithrin:** 9:00am – 11:30am

**Derbyn i Bl 6:** 9:00am – 3:30pm

### **Clwb Brecwast**

Bydd y clwb brecwast ar gael fel arfer bob dydd o Fedi'r 3ydd, gan agor am 8:05am a bydd angen cyrraedd erbyn 8:45am. Bydd angen talu £1 os yn cyrraedd cyn 8:25am (gellir gwneud hyn ar lein neu ar y diwrnod), gyda'r clwb am ddim os yn cyrraedd rhwng 8:25am ac 8:45am. Disgyblion i gael eu gollwng wrth y brif fynedfa fel arfer. Bydd gwybodaeth am ba lwybrau ayyb i'w dilyn wrth gyrraedd yn cael ei rannu efo chi ddechrau wythnos nesaf. **Gan ddilyn rheolau'r Awdurdod Addysg Lleol a Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid cymryd rhywbeth i'w fwyta os yn mynchu'r clwb brecwast.** Byddwn yn gwneud newidiadau i drefniadau'r clwb yn fewnol yn yr ysgol er mwyn cadw at ofynion y 'bybls' / ymbellhau cymdeithasol e.e. ni fydd y plant i gyd yn y neuadd, ond ni fydd hyn yn effeithio ar amseroedd y clwb.

### **Clwb ar ôl Ysgol**

Bydd y clwb yn rhedeg fel arfer bob dydd o Fedi'r 3ydd, rhwng 3:30pm a 5:25pm i ddisgyblion Derbyn i Bl 6. Mae'n bwysig ein bod yn gwybod yn y bore pwy sy'n mynchu'r clwb, gallwch wneud hyn drwy eich plentyn, rhoi neges wrth ollwng neu drwy'r ffyrdd cysylltu arferol. Fe fyddwn yn cyflwyno system archebu lle a thalu o flaenllaw ar gyfer y clwb ar ôl ysgol yn fuan yn y tymor newydd ar ôl i bawb setlo.

### **Bwyd bore**

Ar hyn o bryd, y bwriad ydi darparu bwyd bore fel arfer. Gofynnwn i chi dalu ar lein fel arfer a hynny am hanner tymor ar y tro os yn bosib. Byddwn yn rhannu manylion am y gost am yr hanner tymor ddechrau Medi. Bydd unrhyw daliadau oedd wedi eu gwneud yn barod cyn i'r ysgol gau fis Mawrth yn cael eu trosglwyddo fel credyd i'r flwyddyn addysgol newydd.

### **Cinio ysgol**

Bydd y gegin yn ail gychwyn darparu cinio ysgol fel oedd yn digwydd cyn cau fis Mawrth. Mae yna newidiadau i'r fwydlen a mae copi ohoni i ddilyn wythnos nesaf. Ar gais CBSW a'r ysgol, gofynir i chi dalu am ginio ysgol ar lein gan ddefnyddio rhif cyfeirnod talu eich plentyn (cysylltwch a'r ysgol os am gael y rhif cyfeirnod eto). Ni fydd posib i chi ar hyn o bryd ddefnyddio y peiriant talu i mewn yng nghyntedd blaen yr ysgol gan na fydd rhieni a gwarchodwyr yn cael mynediad i adeilad yr ysgol heb drefniadau o flaenllaw (gweler isod). Os na fedrwch dalu ar lein, neu os am wybod balans ar y cyfrif, gallwch yrru yr arian / siec mewn amlen efo eich plentyn a fe wnaiff y staff ei roi yn y peiriant.

Byddwn yn gwneud newidiadau yn fewnol i drefniadau amser cinio, gan gael mwy o eisteddiadau ayyb i sicrhau cadw'r disgyblion mewn bybls a dilyn gofynion ymbellhau cymdeithasol.

### **Amser chwarae**

Byddwn yn gwneud addasiadau i amser chwarae gyda phob adran a dosbarth yn cael slotiau gwahanol ac yn defnyddio gwahanol rannau o'r buarth. Bydd y disgyblion yn mynd allan i'r buarth ac yn dod nol mewn drwy ddrysau allanol y dosbarthiadau er mwyn osgoi unrhyw ymgynull ar goridau ac yn y cyntedd.

### **Bybls**

Dosbarth eich plentyn fydd y bybl. Ni fyddant yn cymysgu efo dosbarth arall lle mae'n bosib, gyda trefniadau yn cael eu gwneud i sicrhau pellter a gwahanu pwrpasol os bydd rhaid i ddau ddosbarth fod yn yr un lle ar yr un pryd (e.e. ar y buarth). Ni fydd mwy na 30 o blant mewn un bybl.

Byddwn yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, yr AALI a GWE wrth drefnu dodrefn yn yr ystafelloedd yn Y Cyfnod Sylfaen (Meithrin i BI 2) ac yn CA 2 (BI 3-6). Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod y plant yn cadw at ofynion ymbellhau cymdeithasol gan gadw mewn côf fod hyn yn anodd i blant ifanc.

### **Offer ac adnoddau**

Ni fydd angen i'r disgyblion ddod ac offer ysgrifennu ayyb efo nhw o adref. Bydd yr ysgol yn darparu pensiliau, beiros ayyb fel arfer. Byddwn yn gyrru llyfrau darllen adref fel arfer gan sicrhau eu bod yn cael eu diheintio pan fyddant yn cael eu dychwelyd. Bydd adnoddau yn cael eu glanhau yn gyson gan ddilyn y canllawiau.

### **Cwricwlwm**

Byddwn yn treulio'r 3-4 wythnos gyntaf o'r tymor yn helpu'r disgyblion i setlo nôl i drefn ysgol, i dawelu unrhyw ofnau neu bryderon ac i'w hasesu. Bydd hyn yn galluogi'r staff i gynllunio'r hyn sydd ei angen i gynorthwyo pob disgybl i ddal fyny ac i ddatblygu'n academiaidd ac o ran eu lles. Mae'n debyg y byddwch, yn naturiol, yn bryderus am faint o addysg mae'ch plentyn wedi ei gollu dros y misoedd diwethaf – peidiwch a phoeni, fe wnawn ni'n siwr fod y disgyblion yn cael pob cyfle i ddal i fyny. **Gwerthfawrogem yn benodol eich cymorth chi drwy eu hannog i siarad Cymraeg yn yr ysgol gan fod hon yn agwedd mae'n bosib iawn y bydd y nifer o'r disgyblion heb gael cyfle i wneud dros y misoedd diwethaf.** Byddwn yn gwneud cymaint o ddefnydd a phosib o'r awyr agored ar gyfer y dysgu.

Os bydd rhaid i'r ysgol gau o gwbl neu os bydd rhaid i ddosbarth hunan ynysu ayyb byddwn yn troi at ddysgu cyfunol / dysgu o bell fel oeddem yn ei wneud yn ystod y cyfnod clo cyn yr haf.

### **Gwisg Ysgol**

Disgyblion i wisgo gwisg ysgol fel arfer bob dydd.

### **Mynediad i rieni a gwarchodwyr i adeilad yr ysgol**

Er dioglewch, ni fyddwn yn gadael rhieni a gwarchodwyr i ddod mewn i adeilad yr ysgol heb fod trefniadau o flaenllaw wedi eu gwneud. Mae hyn yn cynnwys peidio dod at ffenest y swyddfa yn y dderbynfa. Os oes angen talu arian cinio i'r peiriant sydd yn y tu blaen, darllenwch yr adran am ginio ysgol uchod. Os oes angen gadael neges, gallwch unai ffonio, ebostio neu rhoi'r neges i'r athro / athrawes / aelod o staff wrth ollwng yn y bore / casglu yn y prynhawn neu i'r aelod o staff wrth ddesg y clwb brecwast.

### **Toiledau**

Bydd gan bob dosbarth fynediad i doiled eu hunain a bydd rhaid golchi dwylo cyn mynd yn ogystal ac ar ôl bod. Byddwn yn rheoli faint o blant sy'n mynd i'r toiled ar yr un pryd.

### **Glanhau**

Byddwn yn parhau i ddilyn y drefn glanhau a roddwyd mewn lle ar gyfer yr ail agor ddiwedd mis Mehefin, gan gynnwys glanhau ychwnegol o offer, dodrefn allweddol a thoiledau yn ystod y dydd. Bydd yr ysgol yn cael ei glanhau yn drylwyr ar ddiwedd pob dydd yn ogystal.

### **Golchi dwylo**

Byddwn yn sicrhau fod y disgyblion i gyd yn golchi eu dwylo, yn ôl y cyngor cenedlaethol, unai efo dwr a sebon neu hylif diheintio yn gyson yn ystod y dydd gan gynnwys cyn ac ar ôl bod yn y toiled a chyn ac ar ôl bwyta. Eto, gwethfawrogem eich cymorth chi drwy annog ac atgoffa y plant i wneud hyn. Bydd staff ac unrhyw ymwelwyr (e.e ymwelwyr ieuchyd, gweithwyr cymdeithasol ayyb) yn golchi eu dwylo yn gyson hefyd. Bydd yna orsaf hylendid ar wal pob dosbarth a mewn ardaloedd eraill o amgylch yr ysgol e.e. neuadd, ystafell athrawon

### **Offer PPE**

Does dim gorfodaeth ar ddisgyblion na staff i wisgo unrhyw offer PPE, gan gynnwys masgiau mewn ysgol gynradd. Mae ein asesiad risg wedi adnabod rhai sefyllfaoedd pan fydd angen i staff wisgo offer PPE a byddant yn gwneud hyn pe bai'r sefyllfa'n codi.

Serch hynny, os ydech chi fel rhieni a gwarchodwyr eisiau i'ch plentyn wisgo unrhyw offer e.e. mwgwd, mae croeso iddynt wneud hynny. Ni fyddwn yn cymryd tymheredd disgyblion wrth iddyn nhw gyrraedd yr ysgol.

### **Achosion o Covid-19**

**Os oes plentyn yn arddangos unrhyw un o symptomau Covid-19, ni ddylent ddod i'r ysgol.** Dylid dilyn cyngor y Llywodraeth ar hunan ynysu a chael prawf am Covid-19. Dylid hysbysu'r ysgol ar unwaith os oes plentyn yn derbyn canlyniad prawf Covid-19 positif. Mae'r drefn uchod yn weithredol i staff hefyd.

Os bydd yna achos / achosion positif, mae gan yr ysgol drefn i'w dilyn gan ddilyn cyngor a gweithdrefnau asiantaethau megis CBSW, Tim Iechyd Cyhoeddus Lleol, Track and Trace ayyb.

Os bydd disgybl yn arddangos unrhyw symptom yn ystod y dydd, byddwn yn cysylltu efo'r rhieni ar unwaith, yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ac yn ei hebrwng i ystafell benodol, lle bydd yn cael ei arolygu gan aelod o staff o bellter o 2 fetr nes i riant ddod i gasglu.

### **Ymddygiad**

Am resymau amlwg, byddwn yn disgwyl i'r disgyblion fod ar eu ymddygiad gorau yn dilyn ail agor a byddwn yn cysylltu efo rhieni i drafod os nad dyma'r achos.

Fel y nodwyd, bydd gwybodaeth benodol am drefniadau gollwng a chasglu yn cael ei rannu efo chi ddechrau wythnos nesaf.

Gobeithio fod yr uchod yn ddefnyddiol fel gwybodaeth i chi wrth i ni ail agor. Fel y soniais ar y cychwyn, yn hyn i gyd, rydym am geiso cyflwyno cymaint o normalrwydd a phosib yn ôl i fywydau'r disgyblion a chymuned yr ysgol gan cadw mewn cof iechyd, diogelwch a lles pawb. Mae'r ysgol mewn sefyllfa na welwyd ei math o'r blaen, a gofynwn i chi fod yn amyneddgar wrth i ni roi trefniadau ar waith, eu monitro a'u haddasu os oes angen.

Gyda diolch,

Osian Jones